CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

CYFARFOD CYNGOR 3 MAWRTH 2015

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W R Owen

Cynghorwyr
B Owen, W T Owen, I C Thomas, H W Roberts, W L Davies, G Thomas (C)
A Hopcyn, E R Hughes, T Thomas, C Williams, G Thomas (P)

1. **Ymddiheuriadau**

A Bohana, M Thomas, K Williams, E Lovgreen

Nodwyd cydymdeimlad i Cyng K Williams a'r clerc am eu profedigaethau teuluol

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Noson Gŵyl Dewi yn y clwb peldroed
Orymdaith Gŵyl Dewi – diolchodd Y Maer i pawb a drefnodd

3. **Datgan Buddiant Personol**

Cyng W T Owen – cynllunio ac eitem 16
Cyng I C Thomas – eitem 16 gorchymyn parcio
Cyng E Hughes – eitem 16

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. **Cofnodion**

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 17 Chwefror 2015
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. **Ceisiadau Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau cynllunio

Penderfynwyd

1. C14/0532/14/LL
Addasu adeilad ar gyfer bwyty a gwesty
(9 ystafell) newidiadau i'r fynedfa, torri
Coed,. tirlunio, mannau parcio, addasu adeilad
I gaffi a chodi unedau gwyliau newydd i
greu cyfanswm o 18 uned wyliau

Plas Brereton ,Ffordd Bangor, Caernarfon

****

Ymateb y Cyngor i'r uchod :

Mae Cyngor Tref Caernarfon yn gyffredinol yn gefnogol i'r cais ond yn pryderu yn fawr am y fynedfa i'r ffordd fawr. Mae'r Cyngor felly yn gwrthwynebu y cais hyd fydd pryderon sydd eisoes wedi eu datgan ynglŷn a'r fynedfa i'r ffordd wedi eu datrys yn foddhaol gan gynnwys:-

1. **Llythyr Adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru** dyddiedig 3.7.14 sy'n codi pwyntiau pwysig iawn:

2. **Sylwadau Uned Priffyrdd Cyngor Gwynedd** dyddiedig 30.1.2015 yn cytuno gyda gofynion Adran Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac yn ychwanegu gofyn iddynt gau y mynedfa presennol gerllaw'r gatehouse

3. Bod y gwaith ar y fynedfa yn cael ei gwblhau cyn fod unrhyw waith arall yn cael ei wneud

2. C13/0120/14/LL **Cytuno**
Newidiadau ac estyniadau i'r tŷ
gan gynnwys dymchwel y modurdy
presennol

Y Gilfach. Muriau Park, Caernarfon

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Maerolaeth 2015 – 2016

I dderbyn ymateb ymweliad y cynigydd, a'r eilydd a'r Maer Etholedig y Cyng. William Lloyd Davies

Penderfynwyd

Diolch am y croeso ac yn falch o gyhoeddi bod Cynghorydd W L Davies yn derbyn y swydd anrhydeddus

10.Maerolaeth 2015– 2016

I enwebu Dirprwy Faer Etholedig am y flwyddyn 2015 – 2016

Penderfynwyd

Ethol Cyng B Owen fel Dirprwy Faer am y flwyddyn 2015-2016

11. Snowdonia Pumped Hydro

(***o gyfarfod Cyngor 27 Chwefror)***

Penderfynwyd

Cefnogol ar y amod bod y ceblau o dan ddaear. Gofyn wrth glerc Llanberis / Llanddeiniolen drefnu cyfarfod o'r cynghorau cyfagos cyn iddynt dderbyn y cais cynllunio

12. Llythyrau diolch

i) Papur Dre
ii) Clwb Bowlio

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

13. E-bost parthed Miwsig ar y Maes

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

14.Unllais

Drafft Strategaeth Hyfforddiant Cenedlaethol Arfaethedig 2015 - 2016

Penderfynwyd

Sylwadau i'r clerc cyn 16 Mawrth

15.Cyngor Gwynedd

Cynllun trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth ac annog Cynghorwyr i edrych arno

16. Cyngor Gwynedd

Bwriad Y Cyngor wneud Gorchymyn parcio newydd oddi ar y stryd

Penderfynwyd

Gwrthod gan bod y cais mor wan a gofyn am fwy o fanylder cyn trafod ymhellach

17.Cwestiynau

Beth ydi'r diweddara ar ein wefan newydd?

Disgwyl ymateb pawb o'r is bwyllgor, ond bob dim mewn llaw

Gorffennodd y cyfarfod am 6.45

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....